



Cynllun Iaith Gymraeg

Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith
Gymraeg 1993

2007

Cyd-destun

Paratowyd y Cynllun hwn yn unol ag Adran 21(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Prawf EM) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal ei harolygiadau yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gydradd. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd Arolygiaeth Prawf EM yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru neu wrth gysylltu â nhw.

Mabwysiadwyd y Cynllun hwn gan Arolygiaeth Prawf EM ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 8 Mehefin 2007.

Cynnwys

	Tudalen
Cyd-destun	2
Cynnwys	3
Cyflwyniad	4
1. EGWYDDORION CYFFREDINOL	5
2. CYNLLUN AROLYGIAETH PRAWF EM	7
3. RHOI'R CYNLLUN AR WAITH	8
4. WYNEB CYHOEDDUS AROLYGIAETH PRAWF EM	10
5. RHOI CYHOEDDUSRWYDD I'R CYNLLUN	13
6. MONITRO AC ADOLYGU'R CYNLLUN	14
7. CWYNION	15
8. AMSERLEN GWEITHREDU	16
Atodiad A	17

Cyflwyniad

Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd Arolygiaeth Prawf EM yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Cynllun wedi'i anelu at y cyhoedd yn gyffredinol, ac yn arbennig, y rhannau o'r cyhoedd sy'n ymwneud â naill ai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC), Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (GCRhT) neu Dimau Troseddau Ieuenctid (TTI). Efallai y bydd hyn yn cynnwys troseddwyr o dan oruchwyliaeth, dioddefwyr, rhieni/gofalwyr ac asiantaethau statudol a gwirfoddol sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r asiantaethau hyn.

Arolygiaeth Prawf EM – Datganiad o Ddiben

Mae Arolygiaeth Prawf EM yn Arolygiaeth annibynnol, a ariennir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Ein diben yw:

- adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol am effeithiolrwydd gwaith gyda throseddwyr unigol, plant a phobl ifanc sydd â'r nod o leihau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd, pwy bynnag sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn o dan nawdd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer y gwaith hwn, gan weithio gydag Arolygiaethau eraill yn ôl yr angen
- cyfrannu at berfformiad gwell gan y sefydliadau rydym yn eu harolygu
- cyfrannu at bolisiau cadarn a chyflwyno gwasanaeth effeithiol, yn enwedig wrth amddiffyn y cyhoedd, trwy ddarparu cyngor a lledaenu arfer da, ar sail canfyddiadau arolygiadau, i Weinidogion, swyddogion, rheolwyr ac ymarferwyr
- hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth ehangach yn weithredol, yn enwedig yn y sefydliadau rydym yn eu harolygu
- cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y System Cyfiawnder Troseddol, yn arbennig trwy gydweithio ag Arolygiaethau eraill.

1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Egwyddor cydraddoldeb

- 1.1 Wrth archwilio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae Arolygiaeth Prawf EM wedi ymrwymo i'r egwyddor y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd. Mae hyn yn gymwys i'r gwasanaethau arolygu a ddarparwn ein hunain, ac i'r rheiny a ddarperir gan eraill ar ein rhan.

Safon arolygu

- 1.2 Mae Arolygiaeth Prawf EM wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaethau arolygu o safon gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae'n ceisio safon gyson ni waeth a gynhelir yr arolygiad yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- 1.3 Bydd Arolygiaeth Prawf EM yn monitro'r cyflwyno ar ei harolygiadau a'u safon.

Cynllunio ein harolygiadau

- 1.4 Wrth gynllunio ein harolygiadau yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo i roi sylw manwl i'r angen i ddarparu gwasanaeth cyfartal i siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg, a byddwn yn sicrhau:
- y rhoddir sylw agos i'r dimensiynau ieithyddol a diwylliannol wrth ddatblygu a gweithredu'r holl fframweithiau arolygu ac ymgynghori'n eang ynglŷn â'u cynnwys
 - y caiff yr holl ddogfennau ysgrifenedig a fydd yn y parth cyhoeddus eu cynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg
 - y bydd Arolygiaeth Prawf EM yn hyrwyddo ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg lle bynnag y bo'n ymarferol.

Polisiâu, gweithdrefnau a phrosesau arolygu newydd

- 1.5 Wrth lunio polisiâu, gweithdrefnau a phrosesau arolygu newydd i Gymru, bydd Arolygiaeth Prawf EM yn sicrhau:
- ei bod yn bodloni'r amcanion polisi a nodir yn y Cynllun hwn
 - yr asesir dimensiwn yr iaith Gymraeg
 - y gwneir holl staff Arolygiaeth Prawf EM ac unrhyw arolygwyr neu ymgynghorwyr allanol sy'n ymwneud â llunio polisiâu, gweithdrefnau a phrosesau arolygu yn ymwybodol o'r Cynllun

- y caiff mesurau a gynhwysir yn y Cynllun eu cymhwyso wrth eu gweithredu.

1.6 Ni fydd Arolygiaeth Prawf EM yn newid y Cynllun heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

2. CYNLLUN AROLYGIAETH PRAWF EM

Perthynas Arolygiaeth Prawf EM ag Arolygiaethau eraill

- 2.1 Byddwn yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg i'n holl waith arolygu yng Nghymru, gan gyflwyno darpariaethau a gwasanaethau dwyieithog sy'n cymryd i ystyriaeth broffil ieithyddol y gymuned leol.
- 2.2 Mae Arolygiaeth Prawf EM yn arwain arolygu gwaith prawf a throeddau ieuencid, ac mae hefyd yn cyfrannu at gydweithio ag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill ac arolygiaethau eraill y Llywodraeth. Lle bydd Arolygiaeth Prawf EM yn ymwneud â chydaroelygiadau o'r fath yng Nghymru, byddwn yn sicrhau:
- yr hyrwyddir ein Cynllun gyda'r Arolygiaethau eraill ac y ceisir eu cydymffurfiaeth yn y mater
 - y gwneir cyrff cyhoeddus ac aelodau'r cyhoedd rydym yn cysylltu â nhw yn ymwybodol o'n Cynllun.

Y broses arolygu

- 2.3 Mae egwyddorion cydraddoldeb yn ganolog i bob arolygiad, a bydd Arolygiaeth Prawf EM yn arolygu'r holl wasanaethau perthnasol yng Nghymru yn erbyn y meysydd targed allweddol canlynol:
- darparu gwasanaeth dwyieithog, sy'n briodol i anghenion y boblogaeth leol fel y'i nodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg yr awdurdod lleol ei hun neu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg
 - cyflwyno a monitro targedau gweithredol a strategol a nodir gan y gwasanaeth lleol yn ei Gynllun Iaith Gymraeg
 - cydymffurfiaid asiantaethau statudol â Chynlluniau Iaith Gymraeg y rheiny y maent yn gweithio mewn partneriaeth â nhw, a gofynnir i'r asiantaethau statudol a arolygir roi sylwadau ynglŷn â'u cynlluniau eu hunain.
- 2.4 Lle bydd angen yn cael ei nodi, bydd timau arolygu yn cynnwys o leiaf un siaradwr Cymraeg. Nodir yr angen am siaradwr Cymraeg trwy wybodaeth ymlaen llaw gan yr ardal sydd i'w harolygu a gwybodaeth ddemograffig arall.
- 2.5 Byddwn hefyd yn ceisio ymatebion ynglŷn â'n cydymffurfiaid â'r Cynllun hwn gan y rheiny y byddwn yn eu harolygu.

3. RHOI'R CYNLLUN AR WAITH

Arwain a rheoli

- 3.1 Byddwn yn rhoi lefel uchel o bwysigrwydd ar ein Cynllun ac yn ceisio ei weithredu'n dda. I gyflawni hyn, byddwn yn sicrhau y dirprwyir cyfrifoldeb Prif Arolygydd y Cynllun i Rose Burgess ar 07771 942675, e-bost rose.burgess@homeoffice.gsi.gov.uk; y bydd ei dyletswyddau'n cynnwys:
- cymryd cyfrifoldeb am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd, ac adrodd arno'n rheolaidd i'r Prif Arolygydd a'r Prif Arolygydd Cynorthwyol ar gyfer Amrywiaeth
 - sicrhau bod pob aelod newydd o'r staff yn gallu cael gafael ar gopi o'r Cynllun a'u bod yn gyfarwydd ag ef
 - trefnu hyfforddiant priodol i'r staff
 - gweithredu'n bwynt cyswllt cyntaf ac yn ymgynghorydd i staff, asiantaethau allanol ac aelodau'r cyhoedd, fel y bo'n briodol
 - sefydlu trefniadau monitro a gwerthuso addas.

Staffio

- 3.2 Nid oes gan Arolygiaeth Prawf EM swyddfa yng Nghymru. Mae gennym swyddfeydd yn Llundain a Manceinion ac mae ein staff, sy'n cael eu recriwtio o bob rhan o Gymru a Lloegr, yn gweithio o'r naill neu'r llall o'r swyddfeydd hyn. Mae swyddi o fewn Arolygiaeth Prawf EM ar sail cyflog neu dâl yn ôl y galw. Mae ein polisi recriwtio yn cyd-fynd â'n nod penodedig o 'hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a materion ehangach o ran cydraddoldeb' trwy broses o gystadlu agored a theg er mwyn denu'r ymgeiswyr gorau am bob swydd. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaethau mwyaf priodol yng Nghymru.
- 3.3 Mae ein cyflenwad presennol o staff yn cynnwys pum rheolwr, 25 o arolygwyr, chwe aseswr ymarfer a 15 o staff gwasanaeth cymorth. Yn ogystal, mae gennym 15 o arolygwyr cysylltiol, gan gynnwys dau siaradwr Cymraeg, sy'n cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u goruchwyllo ar sail debyg i arolygwyr amser llawn. Mae'r arolygwyr cysylltiol hyn yn gweithio'n sesiynol.
- 3.4 Yr aelodau staff a fydd mewn cysylltiad ag aelodau'r cyhoedd fel arfer yw'r arolygwyr a'r aseswyr ymarfer. Nid ydym yn gweithredu system glytio ac, yn gyffredinol, defnyddir arolygwyr ac aseswyr ymarfer ledled Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, bydd y ddau arolygydd sy'n siarad Cymraeg yn gweithio'n bennaf ar yr arolygiadau yng Nghymru a byddant yn rhoi eu prif sylw i'r rhain.

3.5 Wrth sicrhau bod yr holl staff yn gallu cynnal ein busnes yn unol â'r Cynllun hwn, byddwn yn:

- ystyried gallu yn yr iaith Gymraeg yn un o'r llawer o sgiliau perthnasol wrth benodi staff
- asesu a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol am bob swydd a llunio'r swydd-ddisgrifiadau'n unol â hynny. Bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth: natur y swydd ac amllder unrhyw gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru; ac i ba raddau y mae rhuglder wrth siarad a/neu ysgrifennu Cymraeg naill ai'n sgil gorfodol neu ddymunol
- gwneud pob ymdrech i recriwtio arolygwyr ac aseswyr ymarfer sy'n addas o gymwys a phrofiadol ac sydd hefyd yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg. Fodd bynnag, lle na fydd aelod Cymraeg ei iaith o staff Arolygiaeth Prawf EM ar gael, byddwn yn sicrhau bod cyfieithwyr cymwys addas ar gael, fel y bo'n briodol
- trefnu digwyddiadau dysgu fel cyflwyniad i'r iaith Gymraeg i bob aelod o staff sy'n debygol o wneud gwaith yng Nghymru, a bydd y fath hyfforddiant yn cynnwys ein dyletswydd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, cyfarchiadau sylfaenol cyffredin a sut i ynganu enwau Cymraeg
- cyhoeddi arweiniad i'r holl staff ynglŷn â chyfathrebu ag aelodau'r cyhoedd, sut i ymdrin â gohebiaeth a ysgrifennwyd yn Gymraeg a manylion gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd.

4. WYNEB CYHOEDDUS AROLYGIAETH PRAWF EM

- 4.1 Cyn belled ag y bo modd, bydd Arolygiaeth Prawf EM yn mabwysiadu fformat dwyieithog yng Nghymru cyn pen blwyddyn o dderbyn y Cynllun hwn.

Cyhoeddiadau

- 4.2 Pan gaiff dogfennau eu cyhoeddi yn Gymraeg, bydd yr enw "Arolygiaeth Prawf" yn Gymraeg.
- 4.3 Byddwn yn sicrhau bod pob ffurflen sydd i'w defnyddio gan y cyhoedd yn ddwyieithog.
- 4.4 Lle'r aseswyd bod y gallu i siarad Cymraeg yn ofyniad swydd, bydd hysbysiadau yn y wasg a hysbysiadau cyhoeddus, yn ogystal â hysbysebion swydd, yn ddwyieithog. Byddwn yn sicrhau y caiff y rhain eu cyhoeddi mewn papurau newydd lleol perthnasol a'u hysbysebu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 4.5 Mae Arolygiaeth Prawf EM eisoes yn cyhoeddi ei holl adroddiadau ar asiantaethau a arolygir yng Nghymru ar ffurf ddwyieithog, lle ceir fersiynau Cymraeg a Saesneg gwahanol yn yr un ddogfen.
- 4.6 Mae pob adroddiad a gyhoeddir gan Arolygiaeth Prawf EM yn ddogfennau cyhoeddus a gellir cael mynediad atynt drwy ein gwefan:

<http://www.inspectorates.homeoffice.gov.uk/hmiprobation>

Mae gan y wefan dudalen Gymraeg, y gellir cael mynediad at fersiynau Cymraeg o adroddiadau diweddar drwyddi.

Gohebu â'r cyhoedd

- 4.7 Bydd Arolygiaeth Prawf EM yn sicrhau y bydd unrhyw ohebiaeth a gychwynnwn â'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys taflenni gwybodaeth a gwybodaeth gyffredinol arall. Rydym hefyd yn ymgymryd â sicrhau:
- yr atebir yr holl ohebiaeth yn yr iaith y cafodd ei derbyn
 - yr ysgrifennir gohebiaeth at aelodau unigol o'r cyhoedd yn yr iaith a ddefnyddiwyd gan y person sy'n cael y llythyr, os bydd hynny'n hysbys
 - lle na fydd yr iaith ddewisedig yn hysbys, y bydd y llythyr gwreiddiol yn ddwyieithog.

- 4.8 Rhoddir arweiniad i staff ynglŷn â sut i ymdrin â gohebiaeth a ysgrifennir yn Gymraeg. Bydd manylion gwasanaethau cyfieithu ar gael yn hawdd i'r holl staff a bydd system effeithiol ar waith i sicrhau y caiff cyfieithiadau eu dychwelyd yn brydlon er mwyn bodloni'r dyddiadau targed ar gyfer atebion.
- 4.9 Trinnir gohebiaeth drwy e-bost yn unol â'r un egwyddorion. Fodd bynnag, rhaid cydnabod ei bod yn annhebygol y bydd y derbynnydd yn gallu darllen a llunio ymateb yn Gymraeg. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y sawl sy'n derbyn yn Arolygiaeth Prawf EM yn anfon y neges e-bost i gael ei chyfieithu i'r Saesneg. Yna, rhoddir y dewis i awdur gwreiddiol y neges e-bost dderbyn ateb ar unwaith yn Saesneg neu aros er mwyn llunio ateb yn Gymraeg. Efallai y bydd hyn yn cymryd mwy o amser na'n targed gweinyddol safonol ar gyfer ymateb i ohebiaeth, ond ein nod fydd ateb cyn pen 20 niwrnod gwaith yn unol â'r amser ymateb a nodir yn Neddff Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Galwadau ffôn

- 4.10 Nid yw Arolygiaeth Prawf EM yn gweithredu gwasanaeth switsfwrdd yn y naill na'r llall o'i swyddfeydd. Felly, mae galwadau ffôn yn debygol o fynd i linellau uniongyrchol unigol. Ar hyn o bryd, nid yw Arolygiaeth Prawf EM yn cyflogi aelod staff amser llawn sy'n siarad Cymraeg, a chaiff pob galwad ei hateb yn Saesneg. Fodd bynnag, mae Arolygiaeth Prawf EM yn cydnabod ei dyletswydd i gynnig gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg. Felly, rhoddir dewis i'r galwr barhau â'r sgwrs yn Saesneg neu ysgrifennu atom a byddwn yn darparu ateb ysgrifenedig yn Gymraeg cyn pen y targed a nodir uchod.

Cyfarfodydd â'r cyhoedd yng Nghymru

- 4.11 Nid yw Arolygiaeth Prawf EM yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y Cyflwyniad uchod, mae ein prosesau arolygu yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyfarfod ag aelodau'r cyhoedd sy'n ymwneud â sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â GPC, GCRhT a TTIau. Rydym hefyd yn cyfarfod â derbynwyr y gwasanaethau hyn, a all gynnwys troseddwyr dan oruchwyliaeth, dioddefwyr a rhieni/gofalwyr.
- 4.12 Cyn y fath gyfarfodydd yng Nghymru, byddwn yn gofyn i'r rheiny sy'n mynychu roi gwybod i ni am yr iaith y byddant yn dymuno ei defnyddio wrth gyfrannu. Lle bo'n hysbys mai Cymraeg yw'r iaith ddewisedig, byddwn yn sicrhau bod un o'n harolygwyr Cymraeg eu hiaith yn bresennol neu'n darparu gwasanaethau cyfieithydd ar y pryd. Os bydd unigolyn neu sefydliad yn mynychu cyfarfod heb rybudd ymlaen llaw ac nad oes arolygydd sy'n siarad Cymraeg neu gyfieithydd ar gael, rhoddir dewis iddynt barhau yn Saesneg neu bennu dyddiad pan ellir darparu cyfieithydd addas.

- 4.13 Lle darparwyd gwasanaethau cyfieithu mewn cyfarfod, bydd arwydd yn dangos bod croeso i ymwelwyr siarad yn Gymraeg, a bydd y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod yn cyhoeddi bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg ar gael.
- 4.14 Rhoddir arweiniad i staff ynglŷn â'r drefn i'w dilyn wrth drefnu cyfarfodydd yng Nghymru gydag unigolion neu grwpiau rydym ni'n ymwybodol y mae'n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg neu â'r rheiny nad yw eu hiaith ddewisol yn hysbys.

5. RHOI CYHOEDDUSRWYDD I'R CYNLLUN

5.1 Bydd Arolygiaeth Prawf EM yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'n Cynllun, a byddwn yn:

- ei gyhoeddi ar ein gwefan
- anfon copïau ohono at yr holl asiantaethau a arolygir gennym
- dosbarthu taflenni gwybodaeth sy'n disgrifio prif nodweddion y Cynllun i asiantaethau partner sy'n gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau a arolygir gennym ac aelodau'r cyhoedd rydym ni'n cysylltu â nhw fel rhan o'r broses arolygu
- cyfeirio at ddatblygiad a phrif nodweddion y cynllun mewn manau amlwg yn ein cynllun blynyddol
- cyhoeddi adolygiad o'r Cynllun yn ein Hadroddiad Blynyddol
- cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yn Gymraeg ar ein gwefan.

6. MONITRO AC ADOLYGU'R CYNLLUN

6.1 Wrth sicrhau egwyddor cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein harolygiadau, bydd y Prif Arolygydd Cynorthwyol sy'n gyfrifol am Amrywiaeth yn gyfrifol am weithredu a monitro'r Cynllun. Bydd Rose Burgess, Arolygydd EM, sy'n adrodd i'r Prif Arolygydd Cynorthwyol ar gyfer Amrywiaeth, yn gweithredu yn bwynt cyswllt cyntaf ac yn ymgynghorydd i staff ac aelodau'r cyhoedd. Mae hyn wedi'i anelu at broses o wella'r Cynllun yn barhaus, a chaiff ei fesur drwy:

- archwilio canlyniadau atebion staff asiantaethau i holiaduron ôl-arolygu
- nifer y cwynion a dderbynnir a phrydlondeb ein hatebion
- i ba raddau y bodlonwn y targedau cyhoeddedig ar gyfer cynhyrchu adroddiadau prydlon
- ymatebion ar ansawdd ein gwasanaethau cyfieithu
- prydlondeb ac ansawdd ein hatebion i ymholiadau ysgrifenedig a llafar oddi wrth aelodau'r cyhoedd
- archwilio ein cydymffurfiad â'r Cynllun
- ymateb i unrhyw wendidau allweddol, gyda chynllun gweithredu ac amserlen i gywiro'r sefyllfa.

6.2 Bydd canlyniad y monitro uchod yn rhan o adolygiad blynyddol, a gynhwysir yn un o adrannau ein Hadroddiad Blynyddol, ac anfonir copi ohono at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

7. CWYNIION

- 7.1 Ymdrinnir â phob cwyn yn unol â gweithdrefn gwynion gyhoeddedig Arolygiaeth Prawf EM, sydd wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg. Yn y man cyntaf, gwahoddir aelodau'r cyhoedd i gysylltu ag:

Andrew Bridges
Y Prif Arolygydd
HM Inspectorate of Probation
2nd Floor
Ashley House
2 Monck Street
London SW1P 2BQ.

Ffôn: 0207 035 2200.

8. AMSERLEN GWEITHREDU

- 8.1 Nodir amserlen ar gyfer bodloni pob un o'r ymrwymadau a gynhwysir yn y Cynllun hwn yn Atodiad A.

Atodiad A

Ymrwymiad	Dyddiad targed
Penodi swyddog cyfrifol	O'r dyddiad cymeradwyo
Hysbysebu'r Cynllun i'r holl staff	O'r dyddiad cymeradwyo
Cyhoeddi adroddiadau a deunydd yn unol â'r Cynllun	Parhaus o'r dyddiad cymeradwyo
Lansio'r Cynllun yn ffurfiol i'r holl asiantaethau rydym ni'n eu harolygu a'r Arolygiaethau rydym ni'n cydweithio â nhw	Cyn pen tri mis o'i gymeradwyo
Cyhoeddi ar ein gwefan	Cyn pen tri mis o'i lansio
Hyfforddi staff	Cyn pen 12 mis o'i gymeradwyo
Recriwtio	Wrth iddynt godi o ddyddiad y cymeradwyo
Cyhoeddi gwybodaeth am y Cynllun i'r cyhoedd	Cyn pen chwe mis o'i lansio
Cyflenwi deunyddiau i'w defnyddio gan y cyhoedd	Parhau i ddefnyddio deunydd sy'n bodoli eisoes a datblygu unrhyw ddeunydd newydd cyn pen chwe mis o'r cymeradwyo
Monitro'r Cynllun	O adeg lansio'r Cynllun ymlaen
Adolygiad ac Adroddiad Blynyddol 1af ynglŷn â gweithredu'r Cynllun	Cyn pen blwyddyn o lansio'r Cynllun